**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd (HCC) ym Mrhifysgol Aberystwyth ddydd Mawrth 5 Tachwedd 2024**

**Presennol:** Cath Smith (Cadeirydd);
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans (ar-lein), Mike Humphreys, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Y Swyddogion: Gweithredol** Heather Anstey-Myers, Prif Weithredwr Dros Dro (cofnodi);
Laura Pickup, Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau;
Anne Dunn, Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol;
Philippa Gill, Arweinydd Ymgysylltu Brand;
Jason Craig, Arweinydd Datblygu'r Farchnad;
John Richards, Arweinydd Darpariaeth i Gynhyrchwyr a Phroseswyr;
Russ Thomas, Arweinydd Datblygu Polisi.

**1. <u>Croeso a Sylwadau gan y Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cydnabu a diolchodd y Cadeirydd am y gwaith sylweddol yr oedd HCC wedi'i gyfrannu at y Ford Gron Weinidogol a'r Grŵp Atafaelu Carbon.

**2. <u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Nodwyd ymddiheuriadau gan aelodau'r Bwrdd Emlyn Roberts a John T Davies, Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol HCC Gareth Jones, Arweinydd Datblygu'r Farchnad Jason Craig a Karen Davies o’r Ysgrifenyddiaeth.

**3. <u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiannau.

**4. <u>Cynllun Gweithredu a Busnes 2025/26, a materion gweithredol parhaus</u>**

Amlinellwyd mai'r bwriad oedd y byddai'r DPA presennol yn cael eu mesur tan ddiwedd y Cynllun Busnes presennol. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos y gwelliant yn gyson dros gyfnod y cynllun busnes pum mlynedd presennol. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno i’r Bwrdd ym mis Rhagfyr. Yn ogystal â hyn, byddai trosolwg o'r modd y caiff y Cynllun Gweithredol presennol ar gyfer 2024/25 ei weithredu ar hyn o bryd. Byddai hefyd rhywfaint o ymrwymiad lefel uchel mewn perthynas â’r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025/26 gyda manylion llawn yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun Busnes yn cael ei gwblhau, byddai dadansoddiad bwlch yn cael ei wneud i amlinellu meysydd y mae angen eu cwblhau.

Efallai y bydd rhagolygon cychwynnol cyllideb 2025/26 ar gael i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr, gyda'r rhagolygon ariannol llawn ar gael i'r Bwrdd ym mis Ionawr.

Yn ogystal â hyn, byddai nawdd y sefydliad yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad. Byddai hyn yn egluro pa nawdd sydd yn ei le a sut y gwnaed y penderfyniadau ynglŷn â hyn. Ailddatganodd Vicki Spencer Francis i'r Bwrdd ei bod yn aelod o Bwyllgor Sioe Frenhinol Cymru.

Nodwyd bod pedwar secondiad mewnol dros dro, a llongyfarchwyd yr ymgeiswyr llwyddiannus. Nodwyd bod moratoriwm ar swyddi gwag a swyddi newydd (yn amodol ar angen busnes clir) cyn i'r Prif Weithredwr parhaol gael ei benodi.

**5. <u>Adrodd am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 21 – 24 Gorffennaf 2024</u>**

Symudwyd yr eitem hon i gyfarfod diweddarach, o ystyried ei bod yn hwyr yn dilyn diwrnod i ffwrdd y Tîm.

**6. <u>Derbyn diweddariad ar lafar ynglŷn â threfniadau Cynhadledd HCC 14 Tachwedd 2024</u>**

Rhoddodd yr Arweinydd Cyfathrebu ddiweddariad ar lafar ynglŷn â chynlluniau a threfniadau Cynhadledd HCC. Diolchodd y Bwrdd i'r Tîm am y gwaith caled wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad hwn. Bydd y manylion yn cael eu dosbarthu cyn y digwyddiad a gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol ar faes y sioe am 1pm ar gyfer sesiwn adrodd yn ôl cyn y digwyddiad.

**7. <u>Derbyn diweddariad am bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf 25 a 26 Tachwedd 2024</u>**

Rhoddodd yr Arweinydd Cyfathrebu ddiweddariad ar lafar am y cynlluniau a'r trefniadau. Nodwyd gan y Bwrdd fod rhaglen lawn ac amrywiol wedi'i threfnu ar gyfer y ddau ddiwrnod ar stondin HCC.

Byddai derbyniad brecwast y Cadeiryddion yn cael ei gynnal am 8am ar y bore Llun gydag anerchiad cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru.

**8. <u>Datganiadau Ariannol (Darnau Naratif) – Gofynion Datgelu (HCC 1224)</u>**

Symudwyd yr eitem hon i'r sesiwn Gaeedig a byddai'r camau y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu, gan nodi nad oedd Gareth Jones yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**9. <u>Unrhyw fater arall</u>**

Diolchwyd am drefnu'r diwrnod i ffwrdd i'r staff a'r Bwrdd (5 Tachwedd) Symud Ymlaen. Y prif faterion y tynnwyd sylw atynt oedd yr angen i gyfleu'r camau nesaf i'r staff.

**Gweithredu:** **Prif Weithredwr Dros Dro**

Holodd y Cadeirydd am y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â’r papur sy'n cael ei baratoi ar gyfer y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach Llywodraeth Cymru.

**Gweithredu:** **Pennaeth Marchnata Strategol a Chyfathrebu**

**10. <u>Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:</u>**

Cyfarfod y Bwrdd ddydd Iau 5 Rhagfyr 2024
Cyfarfod y Bwrdd ddydd Iau 9 Ionawr 2025

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd am eu presenoldeb a daeth â'r cyfarfod i ben.

Dilynodd y cyfarfod cyfrinachol o’r Bwrdd.

**Llofnodwyd............................**
**Cadeirydd HCC**